Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**


| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |


| | |
|---|---|
| **Dyddiad / Date:** | 19.01.23 |
| **Pwnc / Subject:** | **Diweddaru 'Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru'** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil 2022 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion pob oed, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

| **Cyflwyniad** |
|---|
| At ei gilydd, rydym yn cytuno bod y diwygiadau i'r Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru wedi arwain at ddogfen fwy manwl a buddiol ar gyfer y sector addysg gychwynnol yng Nghymru.<br>Yn benodol:<br>• Mae'r meini prawf diweddaraf yn adlewyrchu cyd-destun presennol AGA ac addysg yng Nghymru.<br>• Y gydnabyddiaeth y dylai fod cysylltiadau cryf rhwng AGA ac ymsefydlu.<br>• Mae ailysgrifennu Adran A: Gweledigaeth ar gyfer addysg gychwynnol yng Nghymru yn darparu rhesymeg ategol glir ar gyfer rhaglenni AGA yng Nghymru.<br>• Rydym yn croesawu'r eglurder gwell a ddarperir am ddisgwyliadau rolau yn y bartneriaeth, yn enwedig o ran rôl ysgolion arweiniol ac ysgolion partner.<br>• Cryfhau'r gofynion ar gyfer datblygu medrau Cymraeg athrawon dan hyfforddiant.<br>• Cydnabod bod angen ystyried AGA ar gyfer darpariaeth ADY yng Nghymru.<br><br>Fodd bynnag, credwn mewn ychydig o achosion y byddai'r ddogfen yn elwa ar fwy o eglurder i sicrhau bod disgwyliadau agweddau pwysig ar ddarpariaeth AGA yng Nghymru yn hollol glir. Rydym wedi rhoi mwy o fanylion yn ein hymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad.<br>Yn benodol:<br>• Mae angen egluro cyfeiriadau at y Cwricwlwm i Gymru i osgoi risg camdybiaethau.<br>• Dylai datblygiad medrau Cymraeg athrawon dan hyfforddiant, a threfn y bartneriaeth o ran hyrwyddo'r Gymraeg, gael eu gweu yn fwy trylwyr trwy'r meini prawf.<br>• Bod iaith a therminoleg gyson trwy gydol y ddogfen. |

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1**

i) Ydych chi'n gweithio ym maes cyflwyno addysg gychwynnol athrawon (AGA) neu'n ei gefnogi?
(Os na, parhewch i iv.)

| **Ydym** | ✓ | **Nac ydym** | ☐ |
|---|---|---|---|

ii) Os ydych, ym mha fath o leoliad / sefydliad ydych chi'n gweithio?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Partneriaeth AGA – SAU | ☐ | Awdurdod lleol | ☐ |
| Partneriaeth AGA – ysgol gynradd | ☐ | Consortiwm rhanbarthol | ☐ |
| Partneriaeth AGA – ysgol uwchradd | ☐ | Corff rheoleiddio (gan gynnwys arolygiaethau) | ✓ |
| Partneriaeth AGA – ysgol pob oed | ☐ | Llywodraeth | ☐ |
| Partneriaeth AGA – ysgol arbennig | ☐ | Arall (nodwch) | ☐ |

iii) Beth yw eich prif rôl?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Addysgwr athrawon / mentor athrawon dan hyfforddiant – mewn SAU | ☐ | Ymsefydlu / swyddog cymorth ANG | ☐ |
| Addysgwr athrawon / mentor athrawon dan hyfforddiant – mewn ysgol | ☐ | Arolygydd | ✓ |
| Arweinydd partneriaeth AGA – SAU | ☐ | Swyddog monitro achredu | ☐ |
| Arweinydd partneriaeth AGA – ysgol bartner arweiniol | ☐ | Arweinydd partneriaeth AGA – ysgol bartner | ☐ |
| Arall (nodwch) | ☐ | | |

iv) Os nad ydych chi'n gweithio ym maes cyflwyno AGA neu'n ei gefnogi, ym mha rinwedd hoffech chi roi adborth?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhiant / gofalwr | ☐ | Cymdeithasau proffesiynol, gan gynnwys undebau gweithlu addysg | ☐ |
| Plentyn neu berson ifanc (o dan 18 oed) | ☐ | Trydydd sector | ☐ |
| Oedolyn (nid rhiant na gofalwr) | ☐ | Darparwr hyfforddiant | ☐ |
| Athro dan hyfforddiant | ☐ | Llywodraeth | ☐ |
| Athro newydd gymhwyso | ☐ | Myfyriwr / academydd | ☐ |
| Athro ysgol (ddim yn gweithio fel addysgwr athrawon ar hyn o bryd) | ☐ | Pennaeth (ddim yn gysylltiedig â phartneriaeth AGA yng Nghymru ar hyn o bryd) | ☐ |
| Arall (nodwch) | ☐ | | |

v) Ydych chi'n darparu adborth ar ran sefydliad neu grŵp?

| **Ydw** | ✓ | **Nac ydw** | ☐ |
|---|---|---|---|

Os 'ydw', nodwch.

| |
|---|
| Estyn |

**Cwestiwn 2** – Ydych chi wedi darllen y ddogfen ymgynghori 'Diweddaru Meini Prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol yng Nghymru'?

| **Ydw** | ✓ | **Nac ydw** | ☐ |
|---|---|---|---|

Os ydych chi wedi dewis ‘Nac ydw’, rydym yn argymell y dylech chi ddarllen y ddogfen cyn parhau â’r ffurflen ymateb.

**Cwestiwn 3 –** Ydych chi’n cytuno bod y diwygiadau i ‘Adran A: Gweledigaeth ar gyfer addysg gychwynnol yng Nghymru’ yn y ddogfen yn gwneud y weledigaeth ar gyfer AGA yng Nghymru a’r meddwl deallusol sydd ei angen i gynllunio a chyflwyno rhaglenni AGA yn fwy eglur?

| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau yn gysylltiedig â’ch ymateb, defnyddiwch y gofod hwn i ymhelaethu.

At ei gilydd, mae’r Adran A ddiwygiedig yn diffinio gweledigaeth fwy eglur ar gyfer AGA yng Nghymru ac yn egluro athroniaeth sy’n sail iddi. Mae’r adran yn haws i’w darllen nag o’r blaen ac yn rhoi esboniad buddiol o’r berthynas rhwng addysg gychwynnol athrawon, a blynyddoedd cynnar gyrfa athro cymwys.

Mae strwythur yr adran hon, o ‘beth’ (h.y. ‘Gweledigaeth o’r athro sydd ei angen ar Gymru’) i ‘sut’ (‘Gweledigaeth o sut mae athrawon dan hyfforddiant yn dysgu’ a ‘Gweledigaeth o sut i wneud i hynny ddigwydd’) yn rhoi amlinelliad clir o’r meddwl a’r camau strategol sydd eu hangen gan unrhyw bartneriaeth AGA sy’n gwneud cais am achrediad ar gyfer rhaglen.

Mewn ychydig o achosion, byddai’r testun yn yr adran hon o’r meini prawf achredu yn elwa ar gael ei fireinio ymhellach i sicrhau bod negeseuon allweddol a gwybodaeth ategol mor glir ag y bo modd ar gyfer y gynulleidfa eang a fwriedir. Er enghraifft, mae’r pwynt bwled olaf ar dudalen 13 yn cyfuno dau o feysydd pwysig polisi Llywodraeth Cymru, sef (i) datblygu tystiolaeth ac arfer wedi’i llywio gan ymchwil mewn ysgolion, a (ii) mynd i’r afael ag effaith anfantais a thlodi ar gyrhaeddiad. Er ei bod yn bosibl iawn y gallai ysgolion ddefnyddio tystiolaeth a dulliau wedi’u llywio gan ymchwil i fynd i’r afael ag effaith annhegwch cymdeithasol ar ddysgu, cynnydd a lles disgyblion, maent hefyd yn debygol o ddatblygu diwylliant o ymchwil ac ymholi i wella meysydd pwysig eraill o’u gwaith. Felly, byddai’n well gwahanu’r pwyntiau hyn.

Mae’n bwysig fod y cynnwys a’r derminoleg yn y ddogfen hon yn cyd-fynd yn llawn â’r cynnwys a’r derminoleg yng nghyhoeddiadau cysylltiedig eraill Llywodraeth Cymru hefyd. Er enghraifft, mae tudalen 13 yn cyfeirio at ‘weithdrefnau asesu newydd’. Gallai fod yn fwy buddiol cyfeirio at ‘*drefniadau* asesu’, fel yng nghanllawiau ar-lein y Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2022), gan fod arwyddocâd llai mecanyddol a rhagnodol i hyn. Yn ychwanegol, defnyddir ‘mentor’ a ‘hyfforddwr’ yn adran 2.3 ‘Gwybodaeth ymarferwyr arbenigol’. Byddai’n fuddiol egluro’r term, ‘hyfforddwr’ trwy roi diffiniad yn yr eirfa.

Ceir esboniad buddiol yn yr adran ar ‘sut mae athrawon dan hyfforddiant yn dysgu’ am y wybodaeth broffesiynol sy’n gysylltiedig â dysgu i addysgu. Gellid ymestyn hyn ymhellach trwy sicrhau bod y ddogfen yn ystyriol o unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Yn yr enghraifft o gynwysoldeb mewn addysgu, mae’r testun yn cyfeirio at athrawon dan hyfforddiant yn cynllunio ac yn cyflwyno ‘gwersi gwahaniaethol’. Gallai hyn gael ei gamddehongli fel gofyniad i athrawon dan hyfforddiant gyflwyno gwersi *gwahanol* i wahanol grwpiau o ddisgyblion. Ar hyn o bryd, nid oes cyfeiriad penodol at ddiwallu anghenion dysgwyr o ran eu galluoedd a’u medrusrwydd. Byddai hefyd yn fuddiol symleiddio’r testun, ‘gwahanu cysyniadau allweddol a’u hail-greu mewn ffyrdd gwahanol’, fel bod yr ystyr bwriadedig yn gliriach.

**Cwestiwn 4** – Ydych chi'n cytuno bod y diwygiadau i 'Adran B: Strwythurau, prosesau a mewnbynnau AGA' yn adlewyrchu'r diwygiadau addysgol sy'n aeddfedu yng Nghymru, yn gwneud y gofynion yn gliriach, ac yn ymestyn y gofynion ansawdd ar gyfer rhaglenni AGA yng Nghymru?

| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau yn gysylltiedig â'ch ymateb, defnyddiwch y gofod hwn i ymhelaethu.

Mae'r adran hon o'r ddogfen wedi llwyddo i adlewyrchu'r darlun sy'n esblygu o AGA yng Nghymru ers dechrau'r broses achredu. Mae'n darparu lefel ddigonol o fanylder yn y math o gynnwys sy'n briodol ar gyfer AGA ar draws cyd-destunau amrywiol yng Nghymru.

Rydym yn croesawu'r disgwyliadau clir i Bartneriaethau ddatblygu a gwerthuso eu rhaglenni trwy atebolrwydd ar y cyd a'r adran ychwanegol ar rôl AGA mewn proffesiwn sy'n ymgysylltu ag ymchwil. Mewn ychydig o fannau, gellid diwygio'r cynnwys o dan 'arweinyddiaeth a rheolaeth' ymhellach i wneud y gofynion yn fwy cydlynus ac eglur, trwy grwpio datganiadau ar thema debyg gyda'i gilydd, er enghraifft datganiadau am y canlynol:

- cyllid a chyllido
- datblygu a gwerthuso rhaglenni, a hunanwerthuso
- gofynion cymhwyster o ran recriwtio, dewis a mynediad
- strategaeth ymchwil y Bartneriaeth, anghenion datblygu staff a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer mentoriaid
- blaenoriaethau cenedlaethol.

Defnyddir y term arbenigol 'agos at arfer' sawl gwaith yn yr adran hon o'r ddogfen. Byddai'n fuddiol i'r darllenydd pe bai diffiniad o hyn yn cael ei gynnwys yn yr eirfa.

Er ei bod yn ddefnyddiol cyfeirio Partneriaethau at y strategaethau a'r adnoddau cenedlaethol sydd ar gael i'w cynorthwyo fel rhan o ddatblygu eu strategaeth ymchwil, efallai bydd angen sicrhau bod yr enghreifftiau a ddarperir yn addas at y dyfodol.

Rydym yn cefnogi'r neges gref o dan adran 4.2 mai dim ond ysgolion sy'n cael eu cydnabod am ddarpariaeth o ansawdd uchel ddylai gael eu hystyried yn addas ar gyfer athrawon dan hyfforddiant. Mae'r adran hon yn datgan, 'Dylai partneriaethau fel arfer osgoi dewis ysgolion sydd mewn categori gweithgarwch dilynol statudol ar hyn o bryd'. Gallai fod yn fuddiol rhoi ychydig mwy o fanylion yma, fel bod y gynulleidfa yn glir fod hyn yn cyfeirio at ysgolion sy'n destun pryder y mae Estyn wedi eu gosod yn y categori mesurau arbennig neu welliant sylweddol, fel y diffinnir gan Ddeddf Addysg 2005 ac unrhyw gylchlythyrau cysylltiedig. Mae hefyd yn bwysig cyfeirio at ysgolion 'â lefelau uchel o *Gymraeg a/neu* Saesneg fel Iaith Ychwanegol', ac nid dim ond Saesneg fel iaith ychwanegol (tud.21), o fewn yr adran hon ar feini prawf ar gyfer cynnwys ysgolion yn y Bartneriaeth.

Yn adran 4.3, cyfeirir at y ffaith fod angen i gymorth yn yr ysgol gynnwys 'asesiad o'r graddau y mae athrawon dan hyfforddiant wedi dangos tystiolaeth eu bod yn bodloni'r safonau yn ystod eu profiad ysgol'. Mae hyn yn awgrymu mai rôl yr ysgol yw 'asesu ansawdd y *dystiolaeth* y mae athro dan hyfforddiant yn ei darparu, yn hytrach nag asesu p'un a yw'r athro dan hyfforddiant yn bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer dyfarnu statws athro cymwys am addysgu ac arweinyddiaeth. Rydym yn awgrymu y dylid canolbwyntio ar y datganiad hwn o'r newydd fel ei fod yn cyd-fynd ag adran 5.12 ar asesu athrawon dan hyfforddiant.

Yn fersiwn ddiweddaraf y meini prawf, rydym yn cytuno bod cyfeiriad cryfach at hunanwerthuso ar gyfer gwelliant parhaus a phrosesau sicrhau ansawdd, fel rhan o arwain a rheoli rhaglenni. Mae Adran 4.4 yn darparu trosolwg clir iawn o rolau a chyfrifoldebau ysgolion partner arweiniol, gan gynnwys eu rôl ym mhrosesau sicrhau ansawdd, hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant rhaglen.

Mae Adran 4.5 yn amlinellu'r gofynion i staff addysgu prifysgol feddu ar gymwysterau a phrofiad penodol. Mae'r geiriad yn amwys o bryd i'w gilydd, ac rydym yn awgrymu y byddai eglurhad yn fuddiol i sicrhau bod y gofynion yn cael eu deall yn glir ac yn cefnogi'r egwyddorion sylfaenol ar gyfer AGA yng Nghymru, yn benodol o ran:

- '*Ar y cyfan*, dylai *pob* addysgwr athrawon mewn SAU fod â phrofiad fel athrawon ysgol llwyddiannus.'
- 'Dylai *pob* addysgwr athrawon mewn SAU fod yn weithgar o ran ymchwil…' (tud.25).

Rydym yn croesawu cryfhau'r gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg (adran 4.6) a'r cyfeiriad clir at *Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd* (2022) yn y meini prawf drafft adnewyddedig, fel un o flaenoriaethau allweddol polisi Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, sylwn nad yw'r meini prawf yn cyfeirio at 'Dyfodol Byd-eang: Cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd rhyngwladol yng Nghymru 2022 i 2025' (Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2022) ar hyn o bryd. O fewn y ddogfen polisi cenedlaethol hon, mae'n amlinellu uchelgais glir Cymru i fod yn 'genedl gwbl amlieithog'. Mae nodau strategol 1 a 2 o fewn y cynllun Dyfodol Byd-eang yn cyfeirio'n uniongyrchol at rôl darparwyr addysg gychwynnol athrawon mewn cefnogi datblygu a chyflwyno darpariaeth ystyrlon o ran ieithoedd rhyngwladol yng Nghymru. Felly, rydym yn awgrymu y dylai'r rôl bwysig hon gael ei hadlewyrchu'n briodol o fewn y meini prawf achredu adnewyddedig.

O fewn Adran B y ddogfen, ceir ychydig o achosion lle rydym yn meddwl y gellid gwella'r eglurder ymhellach i leihau'r risg y bydd camdybiaethau'n codi, yn enwedig o ran y Cwricwlwm i Gymru.

Rydym yn awgrymu y dylid dileu cyfeiriad ar wahân at lafaredd (fel blaenoriaeth genedlaethol ochr yn ochr â llythrennedd) o dudalen 29, gan fod diffiniad Llywodraeth Cymru o lythrennedd o fewn y Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys medrau gwrando a siarad. Mae'r enghraifft yn awgrymu bod llythrennedd yng Nghymru yn cyfeirio at ddarllen ac ysgrifennu yn unig, sydd ddim yn wir. Mae hefyd yn bwysig fod cyfeiriad cyson at *gymhwysedd* digidol trwy gydol y ddogfen, yn hytrach na 'chymhwysedd digidol', fel un o'r medrau trawsgwricwlaidd gorfodol o fewn y Cwricwlwm i Gymru.

O fewn adrannau 5.4 a 5.6, nid yw'r meini prawf sy'n cyfeirio at ystod oedran y dysgwyr y mae athrawon yn cael eu paratoi i'w haddysgu yn glir: '…bod pob athro dan hyfforddiant yn cael ei baratoi i addysgu pob dysgwr ar draws o leiaf ddau *gyfnod cynnydd* olynol mewn ysgolion fel y disgrifir o dan y Cwricwlwm i Gymru' (tud.29). Ar hyn o bryd, ni ddefnyddir y term 'cyfnod cynnydd' yn y Cwricwlwm i Gymru ac mae cyfuno ymddangosiadol y termau 'camau cynnydd' a 'sectorau oedran' yn broblemus. Mae angen diffinio'r grwpiau blwyddyn y byddai athrawon dan hyfforddiant yn cael eu paratoi i'w haddysgu mewn rhaglen benodol, er enghraifft Blynyddoedd 3 i 9.

Mae'r datganiad canlynol hefyd yn golygu bod perygl ysgogi camdybiaethau ac arferion di-fudd: 'Rhaid i Bartneriaethau AGA fod yn amlwg yn eu cyflwyniadau ar y *camau cynnydd* y mae rhaglenni unigol yn paratoi athrawon dan hyfforddiant i'w haddysgu…' (tud.32). Mae hyn yn rhagdybio y bydd dysgwyr yn cyrraedd camau cynnydd o fewn grwpiau blwyddyn penodol ac nid yw'n adlewyrchu athroniaeth y continwwm dysgu ar gyfer dysgwyr unigol yn y Cwricwlwm i Gymru. Rydym yn awgrymu y dylid aralleirio'r datganiad fel, 'Rhaid i Bartneriaethau AGA fod yn glir yn eu cyflwyniadau ar y grwpiau oedran fod rhaglenni unigol yn paratoi athrawon dan hyfforddiant i addysgu.'

Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig pwysleisio bod cynnydd ar gyfer dysgwyr yn ganolog i addysgu a chynllunio'r cwricwlwm yng Nghymru, a bod angen i athrawon dan hyfforddiant ddeall egwyddorion cynnydd. Fodd bynnag, yn adran 5.6, caiff cynnydd ond ei ddisgrifio i'r graddau bod athrawon dan hyfforddiant yn gyfarwydd â'r prosesau hynny sy'n cefnogi cynnydd dysgwyr tuag at y pedwar diben. Rydym yn awgrymu y dylid cynnwys cyfeiriad hefyd at athrawon dan hyfforddiant yn sicrhau eu bod yn datblygu dealltwriaeth o egwyddorion cynnydd o fewn pob maes dysgu a phrofiad. Yn adran 5.6.2, gallai cyfeiriad at 'wybodaeth am gynnwys sy'n briodol i'r *cyfnod oedran / y camau cynnydd a / neu'r arbenigedd pwnc a ddewiswyd gan yr athrawon dan hyfforddiant*…' yng nghynnwys astudiaethau pwnc (tud.32) hefyd danseilio dealltwriaeth darparwyr ac ymarferwyr o gynnydd dysgwyr, fel y bwriedir yn y Cwricwlwm i Gymru.

Byddai'n fuddiol i ddarparwyr pe bai'n cael ei wneud yn gliriach fod astudiaethau proffesiynol ac addysgegol, profiad ysgol ac astudiaethau pwnc yn ofynion cynllunio cyrsiau ar gyfer achredu, er enghraifft trwy ychwanegu hyn at y rhestr pwyntiau bwled ar dudalen 29-30 sy'n dechrau â'r bonyn, 'Dylai rhaglenni'.

O fewn adran 5.8 Llesiant ac/neu adran 5.9 Cynnwys y rhaglen, rydym yn argymell y dylid cynnwys cyfeiriad priodol at y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, gan fod hyn wedi'i restru yn y Cyfeiriadau.

**Cwestiwn 5** – Ydych chi'n cytuno bod y diwygiadau i 'Adran C: Canlyniadau'r rhaglenni' yn adlewyrchu'r diwygiadau addysgol sy'n aeddfedu yng Nghymru, yn gwneud y gofynion yn gliriach ac yn fwy eglur, ac yn ymestyn y gofynion ansawdd ar gyfer AGA yng Nghymru?

| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau yn gysylltiedig â'ch ymateb, defnyddiwch y gofod hwn i ymhelaethu.

Mae'r diwygiadau i Adran C yn llwyddo i egluro'r gofynion i gyflawni'r safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig. Mae'r cyfeiriad at ganllawiau ychwanegol (Atodiad 3) ar gyfer Partneriaethau yn fuddiol, ac rydym yn cefnogi cynnwys y cyngor defnyddiol hwn yn barhaus.

Rydym yn croesawu'r gyfatebiaeth gryfach a'r pwyslais ar berthnasoedd gweithio proffesiynol rhwng Partneriaethau AGA a'r cyrff sy'n gyfrifol am athrawon newydd gymhwyso i gefnogi cyfnod pontio athrawon dan hyfforddiant i'w blwyddyn gyntaf yn addysgu.

**Cwestiwn 6** – Ydych chi'n cytuno bod y diwygiadau i'r adrannau canlynol:

- 'Geirfa'
- 'Cyfeiriadau'
- 'Atodiad 2: Gofynion mynediad ar gyfer athrawon dan hyfforddiant yng Nghymru'
- 'Atodiad 3: Safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig – mwy o gyngor i bartneriaethau AGA wrth gynllunio rhaglenni'

yn cefnogi'r newidiadau i brif gorff y ddogfen?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau yn gysylltiedig â'ch ymateb, defnyddiwch y gofod hwn i ymhelaethu.

| |
|---|
| Cyfeiriwch at ein hymatebion i gwestiynau 3, 4 a 5. |

**Cwestiwn 7 –** Ydych chi'n cytuno bod cynnwys 'Atodiad 4: Darpariaeth AGA arbenigol yn y cyfnod cynradd ar gyfer ADY' yn rhoi amlinelliad clir o nodau Llywodraeth Cymru i bennu p'un a oes angen gwneud unrhyw newidiadau yn Fframwaith AGA Cymru i fodloni a chefnogi gofynion a dyheadau dysgwyr â'r anghenion dysgu ychwanegol mwyaf cymhleth?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau yn gysylltiedig â'ch ymateb, defnyddiwch y gofod hwn i ymhelaethu.

Rydym yn croesawu'r cynnig hwn ac yn cytuno'n fras fod yr atodiad yn cyfleu nodau a chynlluniau Llywodraeth Cymru i bennu p'un a oes angen unrhyw newidiadau yn Fframwaith AGA Cymru i fodloni a chefnogi gofynion a dyheadau dysgwyr sydd â'r anghenion dysgu ychwanegol mwyaf cymhleth. Byddai'n fuddiol cryfhau'r wybodaeth ynglŷn â ph'un a yw'r cynnig hwn yn gysylltiedig ag anghenion dysgu ychwanegol cyffredinol ar gyfer dysgwyr mewn ysgol arbennig neu ddosbarth arbenigol ADY, neu'n fwy penodol yn gysylltiedig â math penodol o angen dysgu ychwanegol, er enghraifft cyflwr y sbectrwm awtistiaeth.

Mae gennym nifer o gwestiynau am ddarpariaeth AGA arbenigol arfaethedig yn y sector cynradd ar gyfer ADY:

- A yw Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â'r ysgolion arbennig sydd eisoes yn ymwneud â darparu profiad ysgol ar gyfer darpar athrawon, tra'n casglu tystiolaeth rhanddeiliaid i lywio ailadrodd y Meini Prawf?
- Beth fyddai'r lleoliadau ADY arbenigol? Ai ysgolion arbennig a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion a dosbarthiadau arbenigol awdurdodau lleol fyddai'r rhain? A fyddai'r lleoliadau cymeradwy yn cynnwys lleoliadau arbennig annibynnol?
- Sut bydd SAUau yn gweithio gydag ysgolion arweiniol ac ysgolion partner i baratoi athrawon dan hyfforddiant i weithio'n benodol o fewn y lleoliadau hyn?
- Pam mai cynnig yn unig a geir ar gyfer TAR yn benodol i'r sector cynradd? Beth yw'r dull ar gyfer cyflenwad y gweithlu o arbenigwyr ADY uwchradd? A oes tybiaeth fod arbenigwyr sydd wedi eu hyfforddi yn y sector cynradd yn gallu trosglwyddo eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i ddysgwyr hŷn, ni waeth beth yw'r math penodol o angen dysgu ychwanegol?
- Sut bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gan Fwrdd Achredu CGA yr arbenigedd angenrheidiol i farnu achredu rhaglenni AGA arbenigol ar gyfer ADY?

**Cwestiwn 8**

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r meini prawf adnewyddedig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

Rydym yn croesawu'r cyfeiriad clir at *Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd* (2022) ac uchelgais Llywodraeth Cymru ynglŷn â miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn y meini prawf adnewyddedig. Mae hyn wedi'i gysylltu'n glir â gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru a datblygu gweithlu medrus sy'n siarad Cymraeg gyda chyfeiriad defnyddiol at strategaeth a dogfennau cynllunio Llywodraeth Cymru. Credwn y bydd y meini prawf adnewyddedig yn cael effaith fuddiol ar y cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant a thiwtoriaid ddefnyddio'r Gymraeg o fewn rhaglenni AGA.

Mae'r cyflwyniad cychwynnol i'r meini prawf ar gyfer y Gymraeg 4.6 yn cyfeirio at 'Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg' cyn nodi 'Caiff partneriaethau hefyd eu hannog i symud ar hyd continwwm ieithyddol.' Nid yw'r cyfeiriad hwn yn ei gwneud yn glir beth allai 'continwwm ieithyddol' ei olygu yng nghyd-destun partneriaethau AGA, a gallai arwain at ychydig bach o ddatblygiad dros gyfnod. Rydym yn awgrymu y dylid cynnig mwy o eglurhad i amlinellu'r disgwyliadau ar gyfer datblygu dros gyfnod yn unol â'r cynllun gweithlu Cymraeg mewn addysg.

Rydym yn croesawu'r cyfeiriad at ddatblygu gweledigaeth glir, gan gynnwys gweithredu a gwerthuso strategaeth hirdymor i sicrhau ymagwedd systematig a chynaliadwy at y Gymraeg o fewn partneriaethau AGA. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod 4.6.1 yn cyfeirio at arweinyddiaeth o fewn yr agweddau ar raglenni dan arweiniad SAU heb gyfeirio at sut y dylid datblygu'r weledigaeth, gweithredu a gwerthuso'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg trwy gydweithio ar draws partneriaethau, gan gynnwys ysgolion arweiniol ac ysgolion lleoli. Mae hyn yn golygu bod agweddau pwysig, anghysylltiedig ar ddysgu ac addysgu yn dameidiog gan nad yw'r weledigaeth yn cynnwys sut y bydd yn effeithio ar arferion mewn ysgolion. Gweler yr ymateb i gwestiwn 9.

Nid yw'r cyfeiriad at athrawon dan hyfforddiant yn paratoi i addysgu yn Gymraeg yn glir. A yw hyn yn cyfeirio at yr holl fyfyrwyr yn paratoi i addysgu mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog neu athrawon dan hyfforddiant sy'n addysgu Cymraeg? Rydym yn awgrymu nad yw'r cyfeiriad at 'ddatblygu darpariaeth i fyfyrwyr sy'n paratoi i addysgu yn Gymraeg' yn cwmpasu'r pwyntiau bwled a nodwyd. Rydym yn awgrymu 'Dylai pob partneriaeth ddatblygu gweledigaeth glir ar gyfer yr ymagwedd strategol y byddant yn ei defnyddio ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth i hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys gweithredu a gwerthuso'r strategaeth'.

Rydym yn croesawu'r cyfeiriad clir a ddarperir gan y meini prawf sy'n disgrifio'r disgwyliad y dylai partneriaethau AGA ddatblygu darpariaeth dros gyfnod. Fodd bynnag, bydd angen dysgu proffesiynol sylweddol o ran y disgwyliadau hyn ar gyfer staff SAU (sy'n adlewyrchu'r disgwyliadau ar gyfer y gweithlu addysg cyffredinol). Rydym yn awgrymu y gallai fod yn fuddiol cyfeirio at y cynnig dysgu proffesiynol ar gyfer y Gymraeg [Dysgu proffesiynol iaith Gymraeg - Hwb (llyw.cymru).]

Mae'r meini prawf adnewyddedig yn cyfeirio'n werthfawr at y Fframwaith Cymhwysedd yn y Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysg, ac yn darparu arweiniad defnyddiol ar y ddarpariaeth ddisgwyliedig i gefnogi datblygiad medrau Cymraeg athrawon dan hyfforddiant, gan gynnwys cymorth ar gyfer addysgu. Croesewir y disgwyliad y dylai athrawon dan hyfforddiant dderbyn o

leiaf 35 awr o ddatblygu medrau Cymraeg y flwyddyn. Rydym hefyd yn croesawu'r bwriad i annog yr holl fyfyrwyr Cymraeg i gwblhau o leiaf un lleoliad mewn ysgol cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mae'r cynllun gweithlu Cymraeg mewn Addysg yn datgan y dylai partneriaethau AGA 'ddarparu un lleoliad mewn ysgol cyfrwng Cymraeg i'r holl fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg'. Rydym yn awgrymu y dylid egluro'r geiriad i adlewyrchu'r datganiad hwn yn agosach. Gallai hyn effeithio ar bartneriaethau AGA y mae angen iddynt recriwtio mwy o ddarparwyr cyfrwng Cymraeg ar draws sectorau cynradd, uwchradd a phob oed. Gallai fod yn ddefnyddiol amlinellu a yw'r 35 awr o ddatblygu medrau Cymraeg yn cynnwys darpariaeth ar gyfer myfyrwyr tra byddant ar leoliad ysgol.

Bydd ein hadroddiad thematig sydd ar ddod ar ba mor dda y mae partneriaethau AGA yn cefnogi datblygiad medrau Cymraeg athrawon, gan gynnwys addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg (i'w gyhoeddi ym mis Medi 2023), yn cynnwys cameos ac astudiaethau achos arfer orau i gefnogi partneriaethau AGA wrth ddatblygu'r ddarpariaeth.

Mae'r cyfeiriadau at asesu yn unol â'r Fframwaith Cymhwysedd yn y Gymraeg, sy'n cysylltu ag ymsefydlu i lywio datblygiad parhaus, yn fuddiol. Bydd hyn yn helpu datblygu ymagwedd integredig at ddatblygu'r Gymraeg ar draws y gweithlu addysg yng Nghymru. Fodd bynnag, mae ein tystiolaeth arolygu yn awgrymu nad yw llawer o ysgolion yn ymwybodol o'r fframwaith a'r cynnig dysgu proffesiynol cysylltiedig. Yn ychwanegol, dylai'r cynnig dysgu proffesiynol gynnwys cyfleoedd i athrawon ddatblygu eu haddysgeg o gaffael iaith tra'n datblygu eu medrau personol. Rydym yn awgrymu y dylai'r meini prawf gynnwys datganiad sy'n cynorthwyo partneriaethau i weithio gyda'u hysgolion partner i ddatblygu dealltwriaeth well o'r fframwaith.

**Cwestiwn 9** – Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio neu newid y meini prawf arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

Gellid datblygu'r meini prawf arfaethedig i ddarparu cyfeiriadau cliriach at elfennau o addysg gychwynnol athrawon wedi'u harwain gan yr ysgol o ran y Gymraeg. Dylid cynnwys hyn yn gyfannol i adlewyrchu'r weledigaeth fod AGA yn bartneriaeth rhwng darparwr SAU ac ysgolion, ac nid fel adran ar wahân. Dylid gwneud cysylltiadau yn glir rhwng sesiynau Cymraeg wedi'u harwain gan SAU a phrofiadau ymarferol athrawon dan hyfforddiant mewn ysgolion lleoli. Mae llawer o ofynion ar gyfer datblygu'r Gymraeg a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori yn cyfeirio at agweddau ar raglenni wedi'u harwain gan SAU.

Mae tystiolaeth o'n crynodeb o adroddiad blynyddol 2021-2022 yn nodi 'Yn ystod y cyfnodau clo, ni chafodd disgyblion ddigon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau Cymraeg. Cafodd hyn effaith sylweddol ar hyder disgyblion a'u hawydd i siarad Cymraeg ym mhob math o ysgol'. Mae'n bwysig fod partneriaethau AGA yn cydnabod bod yr angen i flaenoriaethu datblygiad medrau Cymraeg disgyblion yn agwedd bwysig o fewn profiad ysgol athrawon dan hyfforddiant.

Dylai'r meini prawf ystyried sut mae ysgolion lleoli yn cyfrannu at ddatblygu medrau Cymraeg athrawon dan hyfforddiant. Dylai'r meini prawf gyfeirio'n gliriach at ddisgwyliadau sesiynau dysgu yn yr ysgol a'r profiad ysgol. Gallai hyn gynnwys:

- disgwyliad fod y weledigaeth ar gyfer y bartneriaeth AGA yn cyfeirio at sut bydd SAU a'i hysgolion partner yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu darpariaeth ar gyfer y Gymraeg

- cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant gyfrannu at ymagwedd ysgolion lleoli at ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o fuddion amlieithrwydd a dealltwriaeth o'r Gymraeg, ei threftadaeth a'i diwylliant
- sesiynau dysgu sy'n cynnwys addysgeg caffael iaith, yn enwedig datblygu medrau llafaredd, ymagweddau addysgu i gefnogi datblygiad medrau Cymraeg disgyblion a chymorth ar gyfer hwyrddyfodiaid o ran y Gymraeg
- cymorth ar gyfer medrau Cymraeg athrawon dan hyfforddiant yn ystod lleoliad ysgol (er enghraifft, gan fentor iaith).

Wrth werthuso darpariaeth partneriaeth, dylid ystyried pa mor dda:

- mae ysgolion arweiniol ac ysgolion lleoli yn hyrwyddo ac yn datblygu darpariaeth i gynorthwyo athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu'r Gymraeg yn ystod profiad ysgol
- y mae'r bartneriaeth yn cefnogi'r dysgu proffesiynol ar gyfer medrau Cymraeg staff i hyrwyddo'r agwedd hon ar draws cymuned yr ysgol
- y bydd yn paratoi ysgolion i symud athrawon dan hyfforddiant ar hyd y continwwm iaith.

Credwn y dylid ystyried sut beth allai'r continwwm iaith fod i ddarparwyr AGA i sicrhau dealltwriaeth ar y cyd ynghylch disgwyliadau ar gyfer y dyfodol.

**Cwestiwn 10** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi:

O fewn y ddogfen, mae cyfeiriadau at raglenni israddedigion wrth ddisgrifio'r mathau o gyrsiau a gyflwynir ar gyfer achredu yn anghyson, er enghraifft:

- '…eu nod yw bod yn briodol ar gyfer TAR a BEd amser llawn a rhan-amser.' (tud.11)
- 'Er y rhagwelir bod y rhan fwyaf o raglenni a gyflwynir i'w hachredu naill ai'n rhaglenni TAR neu BA i israddedigion…' (tud. 29)

Rydym yn awgrymu y dylid defnyddio'r dull enwi 'gradd israddedig gyda SAC', er mwyn peidio â dynodi ffafriaeth.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐